# Canllaw i rieni plant fydd yn mynychu ysgol breswyl

Enw:

Enw'r Ysgol:

Datganiad AAA:

Asesiad Ysgol:

## Trefniadau teithio

Rhaid cytuno ar unrhyw newidiadau o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad teithio

Milltiroedd a gytunwyd (pellter o'r cartref i'r ysgol):

Trefniadau preswyl:

| | | |
|---|---|---|
| Tacsi | ☐ | Trefnir hwn gan UCTC gyda chontractwr a gymeradwywyd gan y cyngor |
| Cludiant Cyhoeddus | ☐ | Bydd angen cyflwyno derbynebau. |
| Cyfradd Rhieni | ☐ | Os cytunwyd mai chi fydd yn gyfrifol am gludo'ch plentyn i'r ysgol ac yn ôl, bydd angen ichi gwblhau'r ffurflen hawlio costau teithio. |

### Sylwer bod angen sicrhau bod y ffurflen gais:

☐ Yn cynnwys derbynebau petrol/diesel

☐ Wedi'i harwyddo gan bennaeth yr ysgol

☐ Yn cael ei chyflwyno o fewn 3 mis o'r dyddiad teithio

☐ Yn cael ei hanfon at:
Yr Uned Cludiant Teithwyr Corfforaethol, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE

*Drwy hawlio costau teithio, byddwch yn ardystio eich bod yn dal trwydded yrru gyfredol a yswiriant dilys; Tystysgrifau treth a MOT.

Dogfennau sy'n gysylltiedig â'r ffurflen hon

☐ Datganiad AAA ☐ Asesiad Risg

☐ Dogfennau Asesiad Ysgol ☐ Ffurflen hawlio costau teithio

Unwaith ein bod wedi cytuno y bydd eich plentyn yn mynychu ysgol breswyl, byddwn yn trefnu cyfarfod gyda chi i drafod y trefniadau teithio ac unrhyw bryderon all fod gennych ynghylch eich plentyn yn byw oddi cartref. Gall hefyd fod angen trafod yr anghenion sy'n codi yn sgil lleoliad eich plentyn yn yr ysgol, a chydag asiantaethau cymorth, megis y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Bydd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau'n seiliedig ar asesiad holistig o anghenion eich plentyn.

Bydd amlder y cludiant rhwng yr ysgol â'r cartref yn dibynnu ar y trefniadau lletya yn yr ysgol.

Bydd yr wybodaeth a rannwch chi gyda ni'n ein helpu i ddarparu'r math lleiaf cyfyngol o gludiant rhwng y cartref â'r ysgol yn y modd mwyaf diogel.
Gall fod angen i swyddog iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol gynnal asesiad o'r risg teithio. Bydd hyn yn dibynnu ar y dull o deithio ac ar ddifrifoldeb anghenion eich plentyn.
Os bydd eich plentyn yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, byddwn yn cytuno ar y trefniadau gyda chi ac yn anfon manylion y trefniadau atoch yn ysgrifenedig.

Mae'n bosib y bydd yn well gennych fynd â'ch plentyn i'r ysgol eich hun. Os felly, bydd angen ichi gwblhau'r ffurflen hawlio costau teithio. Gall fod yna adeg pan na allwch chi ddarparu cludiant, ac os felly gall fod angen inni wneud trefniadau amgen. Gall unrhyw newidiadau i'r trefniadau teithio gymryd amser i'w trefnu. Gofynnwn am o leiaf 14 diwrnod o rybudd ynghylch unrhyw newidiadau.

Gwybodaeth ddefnyddiol

☐ Polisi Cludiant Ceredigion ☐ Polisi AAA Ceredigion

☐ Cod Ymarfer AAA Cymru ☐ Gwefan SNAP Cymru